
Dyma eich

Canllaw Ymgeisio ar gyfer Prifysgol

Enw:

Ysgol/Coleg:


Ebost:

Rhif Adnabod Personol UCAS:



Dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur

Blwyddyn 12	Mai		Mai - Medi Ymchwilio eich Prifysgolion a Cholegau
	Meh		
	Gor		
	Awst		
Blwyddyn 13	Medi		Cychwyn Medi - diwedd Ionawr Dylid cwblhau ceisiadau. Gwiriwch ar wefan UCAS beth yw'r dyddiad cau cywir ar gyfer cyrsiau Israddedig UCAS ym mis Ionawr (ar wahân i'r rhai sydd â dyddiad cau ar Hydref 15)
	Hyd		
	Tach		
	Rhag		
	Ion		
	Chw		Diwedd Chwefror - cychwyn Gorffennaf UCAS Extra
	Maw		
	Ebr		
	Mai		
	Meh		
Gor		Gorffennaf - Medi Clirio	
Awst			
Medi			



Cwblhau eich Cais

1 > Ewch i: www.ucas.com/hub

2 > **Cofrestru**

Cofrestrwch er mwyn edrych ar eich opsiynau, edrych am gyfleoedd i ymweld â phrifysgolion ac i gwblhau eich cais.

3 > **Cwblhau eich Proffil**

Bydd gennych nifer o adrannau i'w cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- > Manylion Personol
- > Addysg
- > Cyflogaeth
- > Datganiad Personol

Ry'n ni'n gwybod nad yw hi'n hawdd cwblhau'r Datganiad Personol. Pam na ddefnyddiwch chi'r Cymorth Datganiad Personol ar www.sacu-student.com/aber i'ch rhoi ar ben ffordd!

Mae system UCAS yn rhoi cymorth i chi wrth i chi gwblhau'r adrannau yma.

4 > **Gwneud Cais**

Gallwch ddewis hyd at bump cwrs*. Does dim rhaid blaenoriaethu eich dewisiadau, a fydd y prifysgolion/colegau a ddewiswch ddim yn gweld ble arall rydych chi wedi ymgeisio amdanynt.

5 > **Gwrio'n Derfynol**

Cymerwch amser i sicrhau eich bod wedi cwblhau yr holl adrannau yn llawn ac yn gywir! Dyma rai pethau i'w hystyried:

- > Oes yna gamgymeriadau teipio?
- > Ydy'r cyfeiriad ebost rydych chi wedi'i gynnwys yn addas ac yn broffesiynol?
- > Ydych chi wedi nodi eich holl gymwysterau perthnasol?
- > Ydy eich dewisiadau cwrs yn gywir?
- > Ydy eich canolwr academiaidd yn gwybod am yr holl bethau da rydych chi'n eu dweud yn eich Datganiad Personol?

6 > **Adran Olaf**

- > Bydd eich athro/cynghorydd yn ysgrifennu geiradau ar eich cyfer.
- > Dylech gyflwyno eich cais i UCAS gyda'r ffi ymgeisydd. Os hoffech ymgeisio ar gyfer un cwrs mewn un sefydliad yn unig, bydd ffi gostyngedig ar gael. Mae'r ffi yn amrywio os ydych yn ymgeisio ar gyfer un cwrs neu am nifer. Edrychwch ar wefan UCAS er mwyn gweld y swm cywir.

* Os ydych chi'n ymgeisio ar gyfer cwrs meddygaeth, deintyddiaeth, meddygaeth neu wyddoniaeth filfeddygol, yna ymgeisio ar gyfer cyfanswm o bedwar cwrs yn un o'r pynciau yma fedrwrch chi wneud.



Defnyddiwch ddull Mapio'r Meddwl

er mwyn ysgrifennu Datganiad Personol unigryw

Hobiau: ee hyfforddi, clwb drama



Ychydig o gyngor ynglŷn ag ymgeisio oddi wrth rhai o fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Unwaith i chi gyflwyno'ch cais i brifysgolion, ceisiwch beidio ei ddarllen!

Lluniwch ddatganiad personol sydd mor wreiddiol ac unigryw â phosib. Darllenwch yn eangach na'ch cwrs.

Edrychwch ar wefannau prifysgolion i weld pa fath o sgiliau neu rinweddau yr hoffon nhw weld.

Dechreuwch lunio drafftiau yn gynnar.

Peidiwch rhuthro'r peth. Fydd datganiad personol gwyh ddim yn barod mewn oriau, neu hyd yn oed ychydig o ddyddiau. Cymerais i dros fis i gwblhau'r fersiwn a ddanfonais mewn. Weithiau, mae'n werth camu'n ôl o'r datganiad am ychydig o ddyddiau cyn mentro nôl ato yn ffres.

Ewch i Ddiwrnodau Agored.

Datganiad Personol

Y Pethau Pwysig:

- Dydych chi ddim yn cael ysgrifennu mwy na 4,000 o gymeriadau neu 47 llinell o destun yn y ffont arferol.
- Dylech chi ysgrifennu eich datganiad gan ddefnyddio Word, yna'i dorri a'i ludo i'ch cais UCAS. Fydd geiriau italig, bras na rhai wedi'u tanlinellu ddim yn cael eu trosglwyddo.

Strwythur eich Datganiad:

Adran Gyntaf (40%) - Soniwch am y pwnc/pynciau yr hoffech chi eu hastudio yn y brifysgol

Rhai syniadau:

Pam fod gennych chi ddiddordeb yn y pwnc/pynciau?:

Beth ydych chi eisiau dysgu?:

Eich dealltwriaeth o'r cwrs/gwybodaeth berthnasol:

Rhai pynciau neu brofiad gwaith cyfredol sy'n berthnasol i'r cwrs:



Ewch at www.sacu-student.com/aber er mwyn defnyddio'r Erfyn Datganiad Personol. Mae'n rhad ac am ddim a bydd yn amlygu lle y gellid gwella'r Datganiad.

Yr Ail Adran (35%) - Y pynciau rydych chi'n ei astudio ar hyn o bryd

Rhai syniadau:

Enghreifftiau o gyfrifoldeb, dysgu annibynnol, gwaith tîm, rheoli amser:

Profiad Gwaith:

Sgiliau Trosglwyddadwy a phynciau ategol:

Y Drydedd Adran (25%) - Eich Diddordebau Allgyrsiol a Llwyddiannau

Rhai syniadau:

Sgiliau a ddysgwyd:

Pam fod gennych y diddordeb, a pham ydych chi'n ei wneud?:

Datblygiad ar gyfer y dyfodol:



Eglurhad o rai termau . . .

Cynnig Amodol	Yn gosod yr amodau y bydd yn rhaid i chi eu bodloni er mwyn cychwyn ar eich cwrs dewisol (e.e. BBB, gan gynnwys B yn Bioleg).
Cynnig Di-amod	Cynnig lle i astudio heb unrhyw amod.
Dewis Cadarn	O'r holl gynigion rydych chi wedi'u derbyn, dyma i bob pwrpas eich prif ddewis o gwrs a darparwr.
Dewis Yswiriant	O'r holl gynigion a dderbynioc, dyma i bob pwrpas fyddai eich hail ddewis pe na fydddech chi'n bodloni amodau eich dewis cadarn.
Hwb UCAS	Llwyfan gwybodaeth a chynghor sydd wedi'i gynllunio i ddarparu'r holl offer a gwybodaeth sydd eu hangen arnoch i archwilio'ch opsiynau. Bydd angen i bob myfyriwr gofrestru ar Hwb UCAS er mwyn dechrau cais ac yna defnyddio'r un manylion ar gyfer popeth sy'n ymwneud â'r cais UCAS - gan gynnwys cynigion, tracio a phenderfyniadau. Gall myfyrwyr fewngofnodi i Hwb UCAS i wirio cynnydd eu cais ar unrhyw adeg.
Rhif Adnabod Personol UCAS	Pan fyddwch chi'n ymgeisio am le mewn Prifysgol drwy UCAS byddwch chi'n derbyn Rhif Adnabod UCAS sy'n 10 digid o hyd fydd yn hollol unigryw i chi.
Mynediad wedi'i Ohirio	Os ydych chi, ar ôl cwblhau'r broses o ymgeisio ar gyfer prifysgol a chael eich derbyn ar gwrs, yn penderfynu nad ydych chi eisiau dechrau ym mis Medi, gallwch ohirio eich cwrs am flwyddyn.

Adnoddau defnyddiol

www.findcourses.co.uk

Rhestr o gyrsiau a gwybodaeth.

www.whatuni.com

Crëwyd gan fyfyrwr.

www.opendays.com

Diwrnodau Agored Prifysgolion.

www.ucas.com

Y Gwasanaeth Ymgeisio i Brifysgolion a Cholegau.

www.unitasterdays.com

Cofrestr o ddigwyddiadau prifysgol mae myfyrwyr yn gallu eu mynychu.

www.aber.ac.uk/aberfflics

Beth am ymweld â'n plattform Addysg Uwch, sy'n rhad ac am ddim, a fydd yn rhoi cynghor ac arweiniad i chi ar eich cais prifysgol?

www.thecompleteuniversityguide.co.uk

Mae'r wefan annibynnol yma yn cynnig arweiniad da i chi ynglŷn â pha brifysgol sydd orau i chi drwy ei Dabl Cynghrair a Safleoedd Prifysgolion Prydain.

www.thestudentroom.co.uk

Mae myfyrwyr TGAU, Lefel A a myfyrwyr prifysgol yn rhannu eu gwybodaeth academaidd a chymdeithasol; o gymorth astudio i wybodaeth am ddewis prifysgol, gyrfaoedd a bywyd myfyrwr.



A wyddoch chi?

Ychydig o ffeithiau am Brifysgol Aberystwyth:

Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

Oeddech chi'n gwybod bod rhai o'n graddedigion yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc o gwmpas y byd? Mae rhai yn sefydlu ysgol feithrin yn Nicaragua, ac ysgol yn Kenya!

Amaeth

Oeddech chi'n gwybod bod gyda ni dros 1,000 hectar o dir ffermio, 500 o wartheg godro, 4 diadell o ddefaid pedigri, biodanwydd â'r chnydau porthiant?

Astudiaethau Gwybodaeth

Oeddech chi'n gwybod bod un o lyfrgelloedd gorau'r byd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y drws nesaf i'r Brifysgol?

Biocemeg a Geneteg

Oeddech chi'n gwybod bod Biocemegwyr yn Aberystwyth yn gweithio ar bob math o bynciau: o foleciwlau i feicrobau, planhigion, anifeiliaid a phobl?

Bioleg Dynol a Iechyd

Oeddech chi'n gwybod bod gan ein myfyrwyr gyfle i ddewis modiwlau ym Mlwyddyn 2 a 3, a medrant deilwra eu dysgu er mwyn adlewyrchu eu diddordebau, boed ar raddfa foleciwlaidd neu'r person cyfan.

Busnes a Rheolaeth

Oeddech chi'n gwybod, pan wnaed un o raddedigion Aberystwyth yn Brif Weithredwr Debenhams, mai hi oedd CEO benywaidd cyntaf un siopau mawr y stryd fawr?

Celf

Oeddech chi'n gwybod y crëwyd y pedwar dyluniad 'pont a llwybr' ar gefn y darn punt (2004-2007) gan un o raddedigion yr Ysgol Gelf, Edwina Ellis?

Cyfrifeg a Chyllid

Ydych chi'n gwybod bod ein graddedigion wedi cychwyn ar ystod yrfaedd amrywiol, gan gynnwys rolau hyfforddai awdit a threth gyda'r Big 4, ynghyd â gwaith mewn ymgynghoriaeth rheolaeth, dysgu a nyrsio?

Daearyddiaeth a Gwyddorau Daer ac Amgylcheddol

Oeddech chi'n gwybod bod gyda ni brosiectau ymchwil daearyddiaeth a gwyddorau daer a'r amgylchedd mewn dros 60 o wledydd ledled y byd? Maent yn cynorthwyo ein haddysgu ac yn cynnig setiau data sy'n cael eu defnyddio yn ymchwil ein myfyrwyr.

Drama a Theatr

Oeddech chi'n gwybod bod cyfle i'n myfyrwyr ymuno â Chynllun Intern Creadigol gyda Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, gan ennill profiad mewn ystod o brofiadau o Ddysgu Creadigol i Theatr Dechnegol?

Economeg

Oeddech chi'n gwybod bod rheilffordd fach Rheidol yn rhan o etifeddiaeth datblygiad economaidd y 19eg ganrif, a yrrwyd gan ddatblygiad y trênn?

Ffilm a Theledu

Oeddech chi'n gwybod bod un o'n cyn-fyfyrwyr yn rhan o'r tîm sy'n trefnu Gŵyl Ffilm Tribeca yn Efrog Newydd. Mae cystadleuaeth blynyddol i fyfyrwyr gael y cyfle i fynychu'r digwyddiad!

Ffiseg a Seryddiaeth

Oeddech chi'n gwybod ein bod yn ymwneud â phob cyrch gofodol gan yr ESA o'r Haul i Sadwrn, ac o ganlyniad, logo Prifysgol Aberystwyth fydd y testun Cymraeg cyntaf i fynd i'r gofod?

Gwleidyddiaeth

Oeddech chi'n gwybod mai ein hadran ni oedd adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol cyntaf y byd?

Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol

Oeddech chi'n gwybod mai ein cyn-fyfyrwr, Dr Sam Nicholls, ysgrifennodd yr isadeiledd cyfrifiadurol sydd nawr yn rheoli'r holl ddata yn y DU lle y trefnir yr holl genomau coronafeirws?





Gwyddorau Anifeiliaid a Bywyd y Môr

Oeddech chi'n gwybod bod Ceredigion yn gartref i boblogaeth mwyaf y DU o ddolffiniaid trwyn potel? Mae hefyd yn enwog fel cartref i amrywiaeth eang o adar y môr, morloi llwyd a llamhedyddion harbwr.

Gwyddorau Biofeddygol

Oeddech chi'n gwybod bod ein myfyrwyr Gwyddoniaeth Biofeddygol yn dysgu nid yn unig am glefydau meddygol a phroffion clinigol, ond hefyd am y rôl mae ffordd o fyw, maeth ac ymarfer corff yn cael ar ein hiechyd?

Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff

Oeddech chi'n gwybod bod Aberystwyth wedi bod yn ganolfan hyfforddi beicio mynydd ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain yn 2012?

Gwyddorau Milfeddygol

Oeddech chi'n gwybod bod Ysgol Filfeddygol Aberystwyth wedi'i phartneru gyda'r Coleg Milfeddygol Brenhinol, ac ar hyn o bryd, dyma'r unig Ysgol Filfeddygol yng Nghymru?

Hanes

Oeddech chi'n gwybod bod Hanes wedi'i ddysgu yn Aberystwyth ers 1872? Mae hyn yn golygu mai ein hadran ni yw'r hynaf yng Nghymru, ac un o'r mwyaf blaenllaw ym Mhrydain.

Ieithoedd Modern

Oeddech chi'n gwybod ein bod ymysg ychydig o brifysgolion yn y DU sy'n cynnig y cyfle i gydbblethu yr astudiaeth o ieithoedd?

Marchnata a Thwristiaeth

Oeddech chi'n gwybod bod ein myfyrwyr Twristiaeth wedi bod ar brofiad gwaith mewn lleoedd mor amrywiol a phell â Seland Newydd, Norwy, Ynysoedd y Caneri a Ffrainc?

Mathemateg

Oeddech chi'n gwybod bod ein staff yn datblygu modelau mathemategol ar gyfer sut mae ewynnau hylif yn ymddwyn ar yr Orsaf Ofod Ryngwladol?

Peirianeg

Oeddech chi'n gwybod bod gyda ni lawer iawn o robotiaid, gan gynnwys cerbydau hunan-yrro roboteg, llong danfor roboteg a phlentyn roboteg? Ry'n ni hefyd yn gweithio ar robotiaid i fynd i'r blaned Mawrth!

Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Oeddech chi'n gwybod bod cyfle i'n myfyrwyr blwyddyn olaf fynd ar encil ysgrifennu i dŷ bonedd hyfryd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, lle mae - yn ôl y sôn - ysbryd yn crwydro'r tir o gwmpas?

Seicoleg

Oeddech chi'n gwybod bod gyda ni arbenigwr ar Jack the Ripper yn yr adran?

Y Gyfraith a Throsedddeg

Oeddech chi'n gwybod mai ein hadran ni oedd un o'r Ysgolion Gyfraith cyntaf ym Mhrydain i roi graddau i fenywod?

Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Oeddech chi'n gwybod mai ni yw'r unig adran yn y byd sy'n dysgu yr holl ieithoedd Celtaidd sy'n bodoli?



Rhestr Wirio Datganiad Personol

- Amygu eich prif feysydd diddordeb
- Cyfuno eich astudiaeth presennol gyda'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol
- Dangos dealltwriaeth o'r cwrs
- Amygu gwybodaeth o'r pwnc a dealltwriaeth o'r cwrs ar lefel eangach
- Cefnogi unrhyw wybodaeth gyda thystiolaeth neu esiamplau
- Dangos eich bod yn medru cymell eich hun
- Sôn am gynlluniau neu uchelgais gyrfa
- Gwirio eich gramadeg, sillafu ac atalnodi
- Ei roi i rywun arall ei ddarllen
- Sicrhau bod gennych lai na 4000 o lythrennau neu 47 llinell
- Copïo'r ddogfen a'i gludo i'ch cais UCAS ac wedi ei safio
- Ymwelwyd â www.sacu-student.com/aber a defnyddiwyd y Cymorth Datganiad Personol
- Edrychwyd ar www.aber.ac.uk/aberffics ac edrychwyd ar ein cyngor arbenigol i'ch helpu gyda'ch cais

Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
DU
SY23 3DD

 +44 (0) 1970 62 1735

 denu-myfyrwyr@aber.ac.uk



108251-03.22

Lluniau: freepik.com/stories

Mae'r testun yn y cyhoeddiad hwn wedi'i gymryd yn uniongyrchol o, neu wedi'i addasu o, wahanol dudalennau gwe UCAS a Chanllaw i Gyngorwyr UCAS



Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%